

## **Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty Athrofaol Llandochoau,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd  
a'r Fro. Y Ganolfan Adsefydlu  
yn dilyn Strôc.

Dyddiad arolygu: 17 i 18 Medi  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 19 Rhagfyr  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

|    |                                                                               |    |
|----|-------------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                       | 5  |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad .....                                                 | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym.....                                                   | 9  |
|    | Ansawdd profiad y claf .....                                                  | 10 |
|    | Darparu gofal diogel ac effeithiol .....                                      | 23 |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....                                     | 39 |
| 4. | Beth nesaf?.....                                                              | 49 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu ysbytai .....                                            | 50 |
|    | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .. | 51 |
|    | Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....                                  | 52 |
|    | Atodiad C – Cynllun gwella.....                                               | 54 |

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Ganolfan Adsefydlu yn dilyn Strôc yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 17 a 18 Medi 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o uwch-arolygwyr AGIC, un adolygwr cymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

Er hwylustod, cyfeirir at y Ganolfan Adsefydlu Strôc fel y ward ym mhrif gorff yr adroddiad.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd y ward yn darparu amgylchedd da er mwyn helpu i adsefydlu cleifion sydd wedi cael strôc. Roedd digon o adnoddau a lle ar y ward ac roedd amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol ar gael i'r cleifion. Gwelsom fod gofal yn cael ei gynllunio mewn ffordd sy'n hyrwyddo annibyniaeth y cleifion a'i fod yn cael ei ddarparu gan dîm amlddisgyblaethol o arbenigeddau perthnasol. Roedd menter newydd yn cael ei datblygu i gyfuno nodau cleifion ar draws y tîm amlddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio'n fwy ar y claf.

Roedd y staff ar y ward yn broffesiynol ac yn ymrwymedig i gydweithio i ddarparu gofal i'r cleifion. Gwelsom fod arweinyddiaeth gref ar y ward. Fodd bynnag, roedd llawer o'r staff o'r farn nad oedd digon o staff ar gael, a allai effeithio ar safon y gofal. Tynnodd y staff sylw at rôl heriol nyrsio ar y ward.

Yn gyffredinol, nododd y cleifion fod eu profiad ar y ward yn gadarnhaol a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod pryderon ynghylch rhai aelodau o'r staff a oedd yn gweithio sifftiau nos.

Gwelsom dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes. Roedd hyn yn cynnwys gwendid o ran llywodraethu gwybodaeth ar y ward ac roedd angen gwneud gwelliannau o ran y ffordd roedd heintiau yn cael eu hatal a'u rheoli.

Roedd gennym bryderon uniongyrchol ynghylch y gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion yn achosion brys. Gwelsom nad oedd yr archwiliadau gofynnol o gyfarpar dadebru wedi'u cwblhau bob tro yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal adsefydlu i gleifion
- Roedd y staff yn ymgysylltu'n dda â'r cleifion yn ystod gweithgareddau cymdeithasol
- Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei harddangos ar hysbysfyrddau
- Atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwysu
- Prydau bwyd y cleifion a'r ffordd roedd y staff arlwygo a'r staff gofal yn rheoli adegau bwyd
- Safon cofnodion y cleifion a oedd yn cynnwys mewnbwn amlddisgyblaethol
- Arweinyddiaeth ar y ward a gwelliannau mewn meysydd allweddol a oedd yn cynnwys cydymffurfiaeth o ran arfarniadau ar gyfer y staff nyrsio
- Cwblhau archwiliadau clinigol rheolaidd ac amrywiol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau mwy o gysondeb o ran safon y gofal a ddarperir, yn enwedig mewn perthynas ag adroddiadau negyddol gan gleifion ynghylch rhai aelodau o'r staff nos
- Gosod hysbysfyrddau mewn mannau mwy amlwg ar y ward a sicrhau bod y cynnwys bob amser yn gyfredol
- Darparu mwy o lenyddiaeth i roi gwybod i'r cleifion sut i godi pryder neu wneud cwyn
- Cyflwyno proses fwy systematig i gasglu adborth gan gleifion
- Sicrhau y cedwir pob drws a chwprdd storio dan glo er mwyn atal y cleifion rhag cael gafael ar gemegion neu rhag cael eu hamlygu i beryglon eraill
- Bod y draen sydd wedi'i flocio ers amser hir yn un o ystafelloedd ymolchi'r cleifion yn cael ei atgyweirio neu fod y gawod yn yr ystafell yn cael ei datgomiynu
- Darparu cymorth a hyfforddiant i'r staff er mwyn helpu i leihau'r nifer cynyddol o gleifion ar y ward sy'n cwmpo
- Cyflwyno trefniadau mwy trwyadl ar gyfer rheoli heintiau

- Cwblhau hyfforddiant staff gorfodol ar gyfer y tîm nyrsio
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i leihau'r pwysau gormodol a osodir ar y staff nyrsio.

Roedd gennym bryder uniongyrchol am ddiogelwch y cleifion, yr aed i'r afael ag ef o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Roedd hyn yn ymwneud ag archwilio cyfarpar dadebru yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Mae manylion y gwelliant uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o sefydliadau mwyaf y GIG yn y DU. Mae'n fwrdd iechyd addysgu sydd â chysylltiadau agos â phrifysgolion, a gyda'i gilydd, maent yn darparu hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi tua 14,500 o staff ac yn gwario tua £1.4 biliwn bob blwyddyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd a llesiant i boblogaeth o tua 472,400 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled de a chanolbarth Cymru ar gyfer amrywiaeth o arbenigeddau, ac yn darparu gwasanaethau aciwt, gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl ac anableddau dysgu i oedolion a phlant. Darperir y gwasanaethau hyn drwy ysbytai aciwt, cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac optometryddion.

Mae Ysbyty Athrofaol Llandochoau yn ysbyty cyffredinol dosbarth ym mhentref Llandochoau, ychydig y tu allan i Gaerdydd. Mae ganddo tua 400 o welyau ac mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau strôc, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau orthopedig.

Mae'r Ganolfan Adsefydlu yn dilyn Strôc yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau yn cynnig gwasanaeth rheoli ac adsefydlu parhaus i gleifion sydd wedi cael strôc. Atgyfeirir cleifion at Ysbyty Athrofaol Llandochoau o'r Uned Strôc Acíwt yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Nod llwybr y claf yw darparu rhaglen adsefydlu dargededig ddwys i gleifion cyn gynted â phosibl.

Mae'r ganolfan yn ward â 45 o welyau sy'n cynnwys 17 o ystafelloedd unigol â chyfleusterau en-suite, a saith ardal â phedwar gwely ymhob un. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau therapi ac ardaloedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, roedd y ward wedi'i chomisiynu i weithredu 38 o welyau yn unig.

Mae'r tîm adsefydlu amlddisgyblaethol yn cynnwys: meddygon arbenigol strôc, nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac iaith, deietegwyr, seicolegwyr, gweithiwr cymdeithasol, staff gweinyddol, staff cadw tŷ, staff arlwy a myfyrwyr sy'n wirfoddolwyr.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y ward yn darparu amgylchedd modern â digon o adnoddau i ddarparu gwasanaethau adsefydlu strôc. Roedd amrywiaeth dda o weithgareddau cymdeithasol ar gael i ategu'r therapïau a helpu i gefnogi'r cleifion.

Roedd trefniadau effeithiol ar waith i hyrwyddo annibyniaeth y cleifion drwy ddull gweithredu amlddisgyblaethol. Roedd y staff yn gadarn o'r farn bod hyn yn gwella canlyniadau i'r cleifion a chanmolodd y cleifion y cymorth roeddent wedi'i gael er mwyn eu helpu i adennill eu hannibyniaeth.

Gwelsom fod y staff yn garedig, yn ofalgar ac yn ystyriol wrth gyfathrebu â'r cleifion. Fodd bynnag, roedd rhai cleifion yn ansicr ynghylch y trefniadau ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty.

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael ar hysbysfyrddau. Fodd bynnag, roedd cynllun a lleoliad yr hysbysfyrddau yn golygu ei bod yn bosibl nad oedd rhai cleifion neu ofalwyr yn gweld gwybodaeth bwysig. Hefyd, roedd yr hysbysfwrdd ar gyfer archwiliadau clinigol yn arddangos gwybodaeth a oedd wedi dyddio.

Roedd rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion am sut i wneud cwyn neu godi pryder. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddigonol oherwydd maint mawr iawn y ward.

Roedd menter ar waith i gasglu rhywfaint o adborth gan gleifion. Fodd bynnag, mae angen proses fwy systematig er mwyn sicrhau y caiff barn a phrofiadau pob claf eu nodi.

Nododd y cleifion fod eu profiad ar y ward yn gadarnhaol iawn, ar y

cyfan. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch ymddygiad rhai aelodau o'r staff nos a'r ffaith eu bod yn trin y cleifion yn arw.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o chwech ac roedd pob un o'r cleifion wedi bod ar y ward am fwy na phythefnos. Gwnaethom hefyd siarad â chleifion a gofalwyr yn ystod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion o'r holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Penigamp”*

*“Da iawn, wir”*

*“Mae rhai aelodau o'r staff nos yn arw, yn swrth ac yn anghwrtais”*

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty yn ardderchog, ac yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi triniaethau a gofalu amdanynt.

## **Cadw'n iach**

Nid oedd hawl ysmegu yn yr ysbyty. Roedd hyn yn ymestyn hefyd i ddefnyddio anwedd/e-sigaréts. Roedd y trefniadau hyn yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Mangreuedd Di-fwg (Cymru) 2007. Gwelsom fod poster a oedd yn tynnu sylw at fanteision iechyd rhoi'r gorau i smegu yn cael ei arddangos ar hysbysfwrdd.

Gwelsom fod hysbysfwrdd dynodedig ar gyfer maeth a hydradu. Roedd hyn yn cynnwys poster ar gyfer Canllaw Bwyta'n Dda<sup>1</sup>, a oedd yn dangos faint o fwyd a'r math o fwyd sydd ei angen i sicrhau deiet iach a chytbwys. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei darparu am sawl gwydraid o ddŵr sydd ei angen bob dydd, pa mor aml y dylid yfed mathau penodol o ddioddydd a gwybodaeth gyffredinol arall am fwyta'n iach. Roedd hysbysiad yn cael ei arddangos a oedd

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/canllaw-bwytan-dda.pdf>

yn hysbysebu 'Thirsty Thursdays', pan all cleifion ar y ward gael smwddi banana neu aeron cartref.

Roedd hysbysfwrdd dynodedig yn arddangos gwybodaeth benodol am faeth a hydradu i gleifion â dysffagia, a oedd yn ei chael hi'n anodd llyncu. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i gleifion fwyta bwydydd ag ansawdd wedi'i addasu ac yfed hylifau tewychu, er mwyn sicrhau bod y broses o fwyta ac yfed mor ddiogel â phosibl.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth am fyw'n iach ar gael ar y ward. Roedd taflenni yn cael eu harddangos mewn dalwyr taflenni wedi'u gosod ar y wal, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, MRSA<sup>2</sup>, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr a Hwb Strôc Cymru.

Dywedodd y staff wrthym, yn ogystal â sesiynau therapi unigol, y gallai'r cleifion hefyd fanteisio ar amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol ar y ward. Hysbysebwyd y gweithgareddau hyn ar hysbysfwrdd ac roeddent yn cynnwys clwb celf, therapi cerddoriaeth, clwb dawnsio, bingo, coginio cacennau, clwb garddio ac InterAct. Roedd sesiynau darllen un i un yn cael eu darparu i'r cleifion gan yr elusen Interact, sydd wedi ennill gwobrau.

Yn ystod yr arolygiad gwelsom sesiwn y clwb dawnsio yn cael ei chynnal yn y gampfa. Roedd y staff a'r cleifion yn eistedd mewn cylch yn canu ac yn clapio i gerddoriaeth ac roedd y staff yn helpu'r cleifion hynny yr oedd angen cymorth arnynt. Roedd hwn yn faes arfer nodedig, am y gellid gweld bod y cleifion a'r staff yn chwarae rhan lawn yn y gweithgaredd ac yn mwynhau'r profiad.

## **Gofal ag urddas**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried i ba raddau yr oedd y staff yn ystyried preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth. Roedd y mwyafrif o'r farn bod y staff yn rhoi dewis iddynt ynglŷn â

---

<sup>2</sup> Math o facteria yw *Staphylococcus aureus* sy'n gwrthsefyll Methisilin (MRSA) sy'n gallu gwrthsefyll sawl math o wrthfotig a ddefnyddir yn gyffredin. Mae hyn yn golygu y gall heintiau ag MRSA fod yn anos i'w trin na heintiau bacterol eraill..

pha ddull y gallent ei ddefnyddio os oedd angen iddynt fynd i'r toiled, a bod y staff yn eu helpu â'u hanghenion toiled yn ôl yr angen, a hynny mewn ffordd sensitif fel nad oeddent yn teimlo cywilydd. Dywedodd un claf y gwnaethom siarad ag ef nad oedd yn gallu gofalu amdano'i hun o ran gofal personol pan ymunodd â'r ward, ac roedd o'r farn bod ei breifatrwydd a'i urddas wedi cael eu parchu.

Roedd yn siomedig clywed gan nifer o'r cleifion a gwblhaodd holiadur a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, eu bod wedi cael profiadau negyddol o driniaeth arw a diffyg sensitifrwydd gan rai aelodau o'r staff nos. Roedd hyn yn cynnwys un achos lle roedd claf wedi aros cymaint o amser i ddefnyddio'r toiled fel ei fod wedi baeddu'r gwely ar ddamwain. Pan ddaeth aelod o'r staff nos i drin y claf dywedodd wrtho ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le, na ddylai ei wneud eto a bod yn rhaid iddo aros nes bod aelod o'r staff ar gael. O ganlyniad, roedd y claf yn llawn cywilydd.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch. Roedd hyn yn cynnwys bod yn ofalus wrth siarad ag aelodau eraill o'r staff am gleifion er mwyn sicrhau na ellid eu clywed eu sgysiau yn hawdd. Roedd bron pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser neu fel arfer ar y ward.

Roedd gan bob gwely lenni preifatrwydd tafladwy y gellid eu cau er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion. Hefyd, mae gan bob llen label dim mynediad arni i rybuddio eraill y dylent gynnal preifatrwydd y claf pan gaiff ei thynnu. Gwelsom fod y staff yn parchu cyfrinachedd a phreifatrwydd wrth siarad â'r cleifion, a bod y llenni wedi'u tynnu a drysau'r ystafelloedd ochr wedi'u cau. Gwelsom, mewn rhai o'r ystafelloedd i gleifion unigol, fod arwyddion wedi'u gosod ar y ffenestr er mwyn helpu i sicrhau preifatrwydd y cleifion, megis arwyddion yn gofyn i ymwelwyr gnocio ac aros i'r claf roi caniatâd iddynt fynd i mewn.

Fodd bynnag, oherwydd natur rhai cleifion, gallem weld fod rhai cleifion gwrywaidd a benywaidd yn tynnu eu dillad gwely i fyny ac yn dangos eu coesau a rhan isaf eu corff. Roedd risg y gallai cleifion ddinoethi eu hunain yn amhriodol, a hynny'n anfwriadol. Felly, mae'n hanfodol bod y staff yn sicrhau eu bod yn gwisgo rhan isaf cleifion er mwyn cynnal eu hurddas.

Roedd pwysigrwydd sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion yn thema glir yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfyngu nifer yr ymwelwyr i 2 unigolyn ar y tro fesul gwely a pheidio â chaniatáu unrhyw ymwelwyr yn ystod prydau bwyd (oni fyddant yn helpu perthynas i fwyta) er mwyn sicrhau amgylchedd digynnwrf a thawel ar y ward. Mae'n rhaid i bob claf

hefyd barchu preifatrwydd cleifion eraill a pheidio â defnyddio ffonau symudol, llechenni na gliniaduron i dynnu lluniau na recordio fideos yn ardal y gwelyau.

Roedd ystafell aros dros nos ar y ward i berthnasau, a oedd yn cynnwys cyfleusterau gwneud te a choffi, oergell a microdon. Roedd y cyfleuster hwn wedi'i ddatblygu drwy fenter ar ran y staff. Roedd yr ystafell wedi'i haddurno'n braf ac roedd yn cynnwys tri gwely-cadair unigol tynnu allan lliwgar. Dywedwyd wrthym fod teulu wedi rhoi un o'r cadeiriau yn arwydd o'i werthfawrogiad a'i ddiolchgarwch, yn dilyn y gofal roedd perthynas wedi'i gael tra oedd ar y ward.

### Gwybodaeth i gleifion

Nid oedd y cyfarwyddiadau i gyrraedd y ward wedi'u harddangos yn glir yn yr ysbyty ac, felly, roedd yn anodd dod o hyd i'r ward. Gwelsom fod cynllun o safle'r ysbyty ger y fynedfa. Fodd bynnag, nid oedd yn dangos nac yn cynnwys y ward. Am nad oedd unrhyw arwyddion ar y ffordd i'r ward ac am nad oedd cynllun y safle yn gyfredol mwyach, ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, bu'n rhaid i ni ofyn i aelod o'r staff am gyfarwyddiadau i gyrraedd y ward.

Ar ôl i ni gyrraedd y ward, gwelsom fod digon o arwyddion ar gael er mwyn helpu cleifion ac ymwelwyr i ganfod eu ffordd o gwmpas, a oedd yn cynnwys cyfarwyddiadau clir i'r toiledau a'r allanfeydd.

Roedd llythyr wedi'i osod ar y prif ddrws i ddangos yr amseroedd ymweld ar y ward, a oedd wedi cael eu diwygio ym mis Chwefror 2019. Roedd hyn yn cynnwys esboniad o'r rheswm pam roedd yr amseroedd ymweld wedi cael eu lleihau, er enghraifft er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw wrthdaro ag amseroedd therapi, gorffwys na bwyd. Roedd hysbysiad a oedd yn dangos yr amseroedd ymweld hefyd yn cael ei arddangos yn ardal y fynedfa ac wrth fynedfa pob ardal â gwelyau ar y ward.

Roedd hysbysfwrdd mawr a oedd yn dangos lluniau o'r staff ar gael ger desg y brif dderbynfa ar y ward. Yn ogystal â'r ffotograffau, roedd yn cynnwys enwau a rolau'r staff a oedd yn gweithio ar y ward. Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff wedi'i gynnwys a dywedwyd wrthym fod yr hysbysfwrdd wrthi'n cael ei ddiweddarau.

Roedd hysbysfwrdd ar y ward yn arddangos enwau'r nyrs â chyfrifoldeb a'r aelodau eraill o'r staff a oedd ar ddyletswydd. Gwelsom fod y ward yn cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016<sup>3</sup>. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion ac ymwelwyr weld yn hawdd lefel y staff nyrsio y cytunwyd arni gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer y ward.

Gwelsom fod llyfryn gwybodaeth dwyieithog i gleifion ar gael, a oedd yn darparu canllaw clir a defnyddiol iawn ar amrywiaeth o wybodaeth bwysig. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am lety, oriau a threfniadau ymweld, amseroedd bwyd, rolau o fewn y tîm adsefydlu amlddisgyblaethol, nodau therapi, gweithgareddau cymdeithasol, eitemau y bydd eu hangen ar y claf yn ystod ei arhosiad a'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ward.

Yn ogystal â'r hysbysfyrddau hybu iechyd, roedd llawer mwy a oedd yn arddangos gwybodaeth i gleifion, gofalwyr a staff. Roedd hyn yn cynnwys hysbysfyrddau a oedd yn arddangos gwybodaeth am y Gymdeithas Strôc, technegau cyfathrebu, gwybodaeth am ymataliaeth, defnyddio inswlin ac amseroedd bwyd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y broses o osod hysbysfyrddau a gwybodaeth mewn lleoliadau gwahanol wedi'i threfnu'n dda a'u bod yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth a oedd yn berthnasol i gleifion, teuluoedd neu staff. O ganlyniad, roedd yn bosibl na fyddai pobl yn gweld gwybodaeth bwysig.

Gwelsom fod hysbysfwrdd dynodedig a oedd yn cynnwys manylion archwiliadau clinigol. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth yn gyfredol mwyach. Roedd hysbysiadau dwyieithog wedi'u cyflwyno a oedd yn dangos canlyniadau archwiliadau ar gyfer nifer o achosion o MRSA, Clostridiwm Difficile (C.diff), hylendid dwylo, briwiau pwyso a chwympiadau. Nododd gwaith papur ar yr hysbysfwrdd fod y wybodaeth yn cael ei diweddarau bob mis. Fodd bynnag, roedd yr holl ddata yn ymwneud â mis Mehefin 2019 ac, felly, roedd dri mis ar ei hôl hi.

---

<sup>3</sup> [Deddf Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\) 2016](#) Daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn gyfraith ym mis Mawrth 2016 a chafodd ei gweithredu'n llawn ym mis Ebrill 2018. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff byrddau iechyd ystyried darparu lefelau priodol o staff nyrsio, a sicrhau eu bod yn darparu digon o nyrsys er mwyn galluogi'r nyrsys i gael amser i ofalu am eu cleifion yn sensitif.

Roedd taflenni ar gael ar y ward ar gyfer y Gymdeithas Strôc, gwasanaeth parcio a theithio'r bwrdd iechyd, Teleofal<sup>4</sup> ac Age Connects<sup>5</sup>. Roedd llyfrynnau hefyd ar gael ar broses 'Gweithio i Wella' y GIG (Cymru)<sup>6</sup>. Fodd bynnag, roedd y ward yn fawr iawn ac ni ellid gweld y rhain yn hawdd, am mai dim ond mewn un lleoliad roeddent ar gael ac am eu bod yn cael eu storio mewn rhesel daflenni wedi'i gosod ar y wal. At hynny, nid oedd y ward yn arddangos poster 'Gweithio i Wella'. Oherwydd hynny, mae'n bosibl nad yw'r cleifion yn gweld y wybodaeth ac, felly, na fyddent yn ymwybodol o broses codi unrhyw bryderon neu wneud unrhyw gwynion a all fod ganddynt.

---

<sup>4</sup> Mae Teleofal yn gyswilt ffôn 24 awr â gwasanaeth larwm ac ymateb sy'n galluogi pobl hŷn sy'n llai abl yn gorfforol i gadw'n ddiogel a pharhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain.

<sup>5</sup> <https://www.ageconnectscardiff.org.uk/welsh>

<sup>6</sup> Mae Gweithio i Wella yn ymwneud â'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt yn y GIG ledled Cymru.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod arwyddion clir yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r ysbyty a bod cynllun y safle yn cael ei ddiweddarau
- Bod lleoliad hysbysfyrddau yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y cleifion, gofawyr, perthnasau a'r staff oll yn gweld y wybodaeth angenrheidiol
- Bod yr hysbysfwrdd dynodedig ar gyfer archwiliadau clinigol yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd
- Bod posterï 'Gweithio i Wella' yn cael eu harddangos ar y ward ac mewn rhannau eraill o'r ysbyty.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y staff yn ddymunol iawn wrth y cleifion ac yn cymryd amser i siarad â nhw, yn enwedig y rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent yn gwybod eu dyddiad rhyddhau na'r cynllun llawn ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty, am nad oedd hyn wedi'i gyfleu iddynt yn effeithiol. Mae'r broses gyfathrebu hon yn bwysig er mwyn sicrhau y gall cleifion, a'u gofawyr, wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod ganddynt yr opsiwn i gyfathrebu yn eu dewis iaith a bod y staff yn siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol er mwyn eu helpu i'w deall. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod y staff yn eu cyfarch gan ddefnyddio eu henw dewisol.

Roedd bwrdd gwyn Cipolwg ar Statws Cleifion (PSAG) yn cael ei arddangos ar y ward. Diben y bwrdd PSAG oedd darparu gwybodaeth ar unwaith i bob un o'r disgyblaethau sy'n ymwneud â gofal cleifion. Roedd hyn yn cynnwys materion diogelwch cleifion, gofynion/cynlluniau gofal dyddiol a threfniadau rhyddhau. Nid oedd y bwrdd yn cynnwys gwybodaeth adnabyddadwy cleifion ac roedd yn gyfredol, yn ôl pob golwg. Roedd magnetau wedi'u codio â lliw yn cael eu defnyddio i ddangos a oedd cleifion ar y trywydd cywir. Gwelsom nad oedd cleifion â dementia na'r rhai a oedd yn wynebu risg o gwmpo wedi'u nodi. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod sesiwn frifio ar ddiogelwch yn cael ei chynnal ar gyfer pob proses drosglwyddo, a oedd yn nodi anghenion a risgiau

penodol y cleifion. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno'r defnydd o eiconau magnet, er mwyn nodi cleifion â dementia neu'r rhai sy'n wynebu risg o gwympo ar fwrdd PSAG y ward.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu dyddiad a'u cynllun rhyddhau.

### Gofal amserol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y ward yn fawr ac yn brysur iawn. Fodd bynnag, roedd yn ddigynnwrf ac wedi'i threfnu'n dda. Roedd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff yn darparu gofal pan oedd ei angen, er bod un unigolyn yn anghytuno â hyn.

Dywedodd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod pwysau staffio, yn enwedig gyda'r staff nyrsio, yn effeithio ar allu'r staff i ddarparu gofal amserol bob amser, er enghraifft, ymateb i glychau galw'r cleifion. Caiff mater pwysau ar y staff nyrsio ei drafod ymhellach yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r holiadur cleifion yn cytuno bod cloch galw nyrs ar gael iddynt ei defnyddio ac y byddai'r staff yn dod atynt pan fyddent yn ei defnyddio. Fodd bynnag, ar sawl achlysur clywsom y clychau yn seinio arm sawl munud a dywedodd rhai cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gorfod aros am amser hir i'r staff ateb eu galwad. Cydnabuwyd problem y clychau galw gan uwch-aelodau o staff y ward a dywedwyd wrthym fod hyn yn ymwneud, yn rhannol, â'r ffaith bod amgylchedd y ward yn rhy fawr.

Cawsom wybod, drwy'r arolygon dwy funud o'ch amser a gynhaliwyd yn 2019, fod nifer y cleifion sy'n nodi eu bod yn gorfod aros amser hir cyn i'r staff ymateb i'w cloch galw wedi lleihau'n sylweddol, o gymharu â 2018. Fodd bynnag, ar yr adeg honno nid oedd unrhyw ffordd o wybod pa mor hir roedd claf wedi bod yn aros ar ôl iddo seinio'r gloch er mwyn galw am gymorth, sy'n peri risg bosibl i rai cleifion, y gall fod angen cymorth brys arnynt.

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cysylltu â darparwyr allanol er mwyn edrych ar systemau galw eraill a oedd ar gael, a fyddai'n casglu data byw i'r tîm eu defnyddio. Cawsom ein hysbysu hefyd am astudiaeth amser a symud

a gwblhawyd ar y ward er mwyn sicrhau bod gofal yn fwy effeithlon. Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys nodi meysydd â'r lefelau uchaf o weithgarwch ar gyfer y nyrsys ac wedyn mapio hynny yn erbyn adegau prysur a thawel ar gyfer meysydd therapi eraill er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem sy'n gysylltiedig â chlychau galw.

Dywedodd y staff wrthym fod yr holl sesiynau therapi unigol a grŵp yn cael eu cynnal ar y ward rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Tynnodd y staff sylw at y ffaith bod hyn yn golygu nad oedd y cleifion yn cael unrhyw therapi am ddau ddiwrnod dros y penwythnos ac y gallai hyn rhwystro'r broses o adsefydlu'r claf. Clywsom fod cynorthwyr therapi wedi cael eu treialu'n flaenorol er mwyn darparu therapi bob dydd o'r wythnos ac, er bod hyn yn effeithiol, nad oedd unrhyw gyllid parhaus ar gyfer y rolau hyn gwaetha'r modd.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Roedd hyrwyddo annibyniaeth y cleifion yn amcan sylfaenol i'r ward. Roedd hysbysiad yn cael ei arddangos ar ddrws y brif fynedfa a oedd yn nodi diben y ward, sef adsefydlu cleifion fel y gallant fyw mor annibynnol â phosibl. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymedig iawn i weithio mewn ffordd amlddisgyblaethol er mwyn cyflawni hyn ac roeddent o'r farn bod y dull hwn o weithredu yn gwella canlyniadau i'r cleifion. Roedd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal bob amser neu fel arfer.

Roedd y ward yn fawr iawn gyda choridorau eang a oedd yn rhoi digon o le i gleifion â phroblemau symudedd a defnyddwyr cadair olwyn. Roedd amrywiaeth o gymhorthion symudedd ac addasiadau a oedd yn gymwys ar gyfer adsefydlu cleifion a oedd wedi cael strôc ar y ward. Roedd hyn yn cynnwys campfa fodern ag offer digonol a oedd wedi'i lleoli ar y ward ac ardal asesu ar ffurf cartref a oedd yn cynnwys cegin, ystafell wely ac ystafell ymolchi. Hefyd, roedd ystafell ddydd a heulfan fawr lle y gallai'r cleifion gymdeithasu a siarad â pherthnasau a ffrindiau.

Canmolodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw y staff am y cymorth roeddent wedi'i roi iddynt er mwyn eu helpu i adennill eu hannibyniaeth, a oedd

yn cynnwys defnyddio'r gegin asesu. Dywedodd un claf wrthym na allai gerdded na defnyddio ei ochr chwith pan gafodd strôc a chanmolodd y timau therapi am eu cymorth a'u brwdfrydedd i'w helpu i ddechrau cerdded eto.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod dogfennaeth Dyma Fi<sup>7</sup> yn cael ei defnyddio ar gyfer cleifion â dementia a lle roedd claf yn cael anhawster gyda'i iaith neu ei leferydd. Nod y fenter hon yw helpu'r staff i ddeall pob claf ar y ward yn well, a all helpu i ddarparu gofal wedi'i deilwra'n fwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar anghenion a dymuniadau unigol.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod cynllun pili pala<sup>8</sup> yn cael ei ddefnyddio ar y ward. Mae cynllun pili pala yn darparu system o ofal yn yr ysbyty i bobl sy'n byw gyda dementia neu i bobl nad yw eu cof mor ddibynadwy â chynt. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gleifion strôc sydd â nam ar y cof neu sy'n dioddef o ddryswch neu anghofrwydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cyflwyno'r cynllun pili pala ar y ward.

Dangosodd holl gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym gynlluniau gofal clir a oedd yn seiliedig ar anghenion cleifion unigol. Roedd gofal yn cael ei gynllunio mewn ffordd i hyrwyddo annibyniaeth drwy gynnwys y tîm amlddisgyblaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ynghyd â mentrau ar gyfer cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn yr adran Gofal Diogel ac Effeithiol yn yr adroddiad hwn.

### Hawliau pobl

Roedd teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â'u dymuniadau a'u dewisiadau. Roedd hyn yn cynnwys bod yn bresennol wrth drafod anghenion gofal â'r tîm amlddisgyblaethol os oedd angen.

Dywedwyd wrthym fod amseroedd penodol diwygiedig ar gyfer ymweld â chleifion wedi'u cyflwyno ym mis Chwefror 2019, a ddatblygwyd ar ôl ymgynghori â'r cleifion a'u perthnasau neu eu gofalwyr. Fodd bynnag, roedd yr

---

<sup>7</sup> <https://www.alzheimers.org.uk/get-support/publications-factsheets/this-is-me>

<sup>8</sup> <http://butterflyscheme.org.uk/>

amseroedd yn hyblyg gan ystyried anghenion y cleifion a'u perthnasau, yn enwedig y rhai a oedd yn teithio cryn bellter.

Cyflwynwyd yr amseroedd ymweld diwygiedig mewn ymateb i'r angen i sicrhau bod y cleifion yn cael digon o orffwys am fod cwynion gan gleifion bod amseroedd ymweld yn rhy hir. Roedd hyn yn golygu bod amseroedd ymweld yn gwrthdaro ag amseroedd therapi a bwyd. Mewn ymateb, roedd amseroedd bwyd wedi'u diogelu ac nid oedd unrhyw ymwelwyr yn cael eu caniatáu oni bai bod hynny wedi'i drefnu'n flaenorol, er mwyn helpu'r claf gyda'i brydau bwyd.

## Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd diffyg dealltwriaeth ymhlith pob aelod o'r staff ar y ward o'r ffordd roedd adborth cleifion yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio. Gwelsom fod y llyfryn gwybodaeth i gleifion yn nodi y gellir gofyn i gleifion a gofalmwr gymryd rhan yn holiadur y cleifion er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y ward wedi cael adborth gan gleifion mewn perthynas â chlychau galw nyrs, o'r arolygon dwy funud o'ch amser. Mae'r rhain yn arolygon byr a gwblheir gan ddefnyddio gwirfoddolwyr sy'n siarad â chleifion. Cawsom wybod bod tua 10 arolwg yn cael eu cwblhau bob mis. Wedyn, caiff yr arolygon eu hanfon at dîm profiad y claf canolog y bwrdd iechyd, sy'n dadansoddi'r canlyniadau. Caiff canlyniadau'r arolygon eu hanfon drwy e-bost at yr uwch-nyrs, sy'n eu dosbarthu i arweinwyr y timau er mwyn iddynt gael eu rhaeadru i aelodau'r timau drwy gyfarfodydd tîm neu mewn rhyw ffordd arall.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau hynny o'r staff a oedd yn bresennol yn sesiwn adborth yr arolygiad ganlyniadau adborth y cleifion a chaiff unrhyw bwyntiau dysgu eu rhannu mewn cyfarfodydd tîm. At hynny, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei gasglu ar y ward a'i ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth o fewn eu cyfarwyddiaeth. Dywedodd hanner eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Fodd bynnag, pan wnaethom gyfarfod â grŵp croestoriadol o'r staff i gael trafodaeth yn ystod yr arolygiad, dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym nad oedd unrhyw broses ar waith i gasglu adborth cleifion a dysgu ganddo.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Bod y staff ar y ward yn ymwybodol o'r broses sydd ar waith i gasglu adborth cleifion a bod gwybodaeth yn cael ei bwydo'n ôl iddynt am y ffordd y caiff ei ddefnyddio i hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau
- Bod proses systematig ar waith i gasglu adborth gan bob claf

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd dull arloesol o gyfuno nodau a chanlyniadau cleifion ar draws y timau amlddisgyblaethol yn cael ei ddatblygu.

Roedd y gwaith o gadw cofnodion ar y ward yn dda a gwelsom dystiolaeth o fewnbwn amlddisgyblaethol wrth gynllunio asesiadau a gwneud penderfyniadau.

Roedd trefniadau da ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael lefelau maeth a hydradu priodol.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n dda, ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd gennym risg a oedd yn gysylltiedig â storio Hylifau mewnwythiennol yn yr ystafell driniaeth.

Roedd asesiadau ac ailasesiadau o groen yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a gwelsom fod nifer y cleifion â briwiau pwyso yn isel iawn.

Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau i atgyfnerthu'r trefniadau er mwyn helpu i atal cleifion rhag cwmpo, am i ni weld bod nifer y cleifion a oedd wedi cwmpo wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Nodwyd cydymffurfiaeth wael â'r gofynion o ran llywodraethu gwybodaeth, am i ni weld nad oedd cofnodion y cleifion na'u gwybodaeth cleifion adnabyddadwy yn cael eu storio'n ddiogel. At hynny, nid oedd cyfrifiaduron wedi'u cloi yn y prif goridoriau nad oeddent yn cael eu goruchwyllo.

Gwelsom enghreifftiau o ddrysau a chypyrddau storio heb eu cloi, a oedd yn cynnwys peryglon posibl i'r cleifion.

Roedd angen gwella sawl agwedd ar y gwaith o atal a rheoli

heintiau. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith bod llwch yn cronni ar osodiadau goleuadau uwchben gwelyau cleifion ac nad oedd rhai llenni preifatrwydd cleifion yn cael eu newid o fewn yr amserlenni gofynnol.

## **Gofal diogel**

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Gwelsom fod y ward mewn cyflwr da a'i bod yn lân ac yn daclus, ar y cyfan. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno hefyd fod y ward yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom fod problem a oedd yn gysylltiedig â llwch ar rai arwynebau uchel. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adran ganlyinol ar atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod saith o'r ystafelloedd i gleifion unigol wedi'u datgomisiynu a'u bod yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd storio. Roedd hyn yn cynnwys storio matresi, cyfarpar trydanol, cyfarpar codi a symud, cadeiriau olwyn a chyfarpar ward cyffredinol, megis powlenni ymolchi a phadiau anymataliaeth.

Ar ddechrau'r arolygiad, aeth rheolwr y ward â ni ar daith o gwmpas y ward. Yn ystod y daith, ar ddau achlysur, gwelsom fod drysau tân yn cael eu cadw ar agor â biniau. Roedd yn cynnwys drws cegin y ward. At hynny, roedd drws ystafell a oedd yn cynnwys cyfarpar, megis tiwbiau bwydo ac eitemau clinigol eraill, yn cael ei gadw ar agor. Symudodd rheolwr y ward y biniau ar unwaith er mwyn sicrhau bod y drysau ar gau a dan glo, er mwyn atal y cleifion rhag mynd i mewn i'r ystafell.

Yn ystod yr arolygiad gwelsom sawl achos lle roedd drysau wedi'u gadael heb eu cloi, a oedd yn peri risg i ddiogelwch y cleifion a allai arwain at glaf yn niweidio ei hun yn fwriadol neu'n anfwriadol. Cafodd y problemau hyn eu datrys gan y bwrdd iechyd yn ystod yr arolygiad ac fe'u crynhoir isod.

Roedd drws yr ystafell storio gwastraff heb ei gloi. Gwelsom nad oedd clo bysellfwrdd y drws wedi'i ddefnyddio, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion fynd i mewn i'r ystafell sy'n cynnwys biniau storio ar gyfer gwastraff cyffredinol a gwastraff clinigol. Caeodd y bwrdd iechyd y drws ar unwaith a'i gloi gan ddefnyddio'r clo bysellfwrdd. Gwnaethom edrych ar y drws sawl gwaith yn ystod yr arolygiad a bob tro roedd yr ystafell wedi'i chloi.

Roedd cwpwrdd storio ar y ward a oedd yn cynnwys cynhyrchion glanhau heb ei gloi. Gwelsom fod clo allwedd wedi'i osod ar y cwpwrdd ac nad oedd y clo

hwnnw wedi'i ddefnyddio. Yn y cwpwrdd roedd cynhyrchion glanhau a oedd yn cynnwys cannydd a chlorin. Am nad oedd y clo yn gweithio, symudodd y bwrdd iechyd yr holl gynhyrchion a allai fod yn beryglus i leoliad diogel.

Roedd cloeon bysellfwrdd wedi'u gosod ar ddrysau'r ddwy ystafell olchi ac roedd y ddwy heb eu cloi. Yr ystafelloedd hyn a oedd yn cael eu defnyddio i waredu gwastraff dynol. Roedd yr ystafelloedd yn cynnwys hydoddiannau a thabledi glanhau diheintiol â chlorin ynddynt a oedd yn cael eu storio mewn tybiau ailseliadwy. Clôdd y bwrdd iechyd y ddau ddrws gan ddefnyddio'r bysellfyrddau ar ail ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd ystafell storio lle roedd gwahanol eitemau gan gynnwys tiwbiau bwydo cleifion yn cael eu cadw, heb ei chloi. Roedd hyn yn peri risg y gallai tiwbiau fynd yn sownd yng ngwddf claf a oedd wedi drysu, a allai ei dagu. Nodwyd gennym hefyd fod nwyddau traul wedi'u gadael ar y llawr a ddylai fod wedi cael eu storio ar silff, er mwyn sicrhau y gellid glanhau'r llawr yn effeithiol a bod heintiau yn cael eu hatal a'u rheoli. Clôdd y bwrdd iechyd ddrws yr ystafell.

Yn un o ystafelloedd ymolchi'r cleifion gwelsom fod y draen ger y gawod wedi'i flocio ac roedd fel petai haen drwchus o lwydni o'i amgylch. Roedd arwydd wedi'i osod ar y drws, a oedd yn nodi na ddylai'r gawod gael ei defnyddio. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r dŵr yn draenio i ffwrdd a'i fod yn peri risg o heintio.

Pan welsom yr ystafell gyntaf ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, roedd ardal y gawod fel petai'n wlyb. Felly, roedd gennym bryderon bod claf wedi defnyddio'r gawod. Fodd bynnag, yn ystod y cyfarfod adborth â'r bwrdd iechyd, dywedwyd wrthym fod y llawr yn wlyb am fod y gawod wedi cael ei throi ymlaen er mwyn rhedeg y dŵr at ddibenion glanweithdra legionella, yn hytrach na bod claf wedi defnyddio'r gawod.

Cawsom gopi o'r cais am waith atgyweirio, a oedd wedi'i anfon at dîm ystad y bwrdd iechyd i'w hysbysu am y draen wedi'i flocio. Roedd y cais am waith yn ddyddiedig 13 Chwefror 2017. Felly, nid oedd y broblem hon wedi cael ei datrys ers dros ddwy flynedd a hanner. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried datgomisiynu'r gawod.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom ddau achos lle roedd angen gwasanaethu dau o'r Diffoddwyr Carbon Deuocsid (CO<sub>2</sub>). Defnyddir y diffoddwyr hyn yn bennaf ar gyfer tanau hylifau fflamadwy ac i'w defnyddio ar gyfarpar trydanol byw.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Bod pob drws y gellir ei gloi dan glo bob amser, er mwyn lleihau'r risg y bydd cleifion yn mynd i ardaloedd cyfyngedig
- Bod unrhyw hydoddiannau peryglus, er enghraifft diheintydd a channydd yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo ar y ward
- Bod problem yr ystafell ymolchi sy'n cynnwys y draen wedi'i flocio naill ai'n cael ei datrys neu fod y gawod yn cael ei datgomisiynu
- Bod pob diffoddydd yn cael ei wasanaethu o fewn yr amserlenni gofynnol.

## Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd sampl o gofnodion gofal pum claf ar y ward. Gwelsom fod pob un o'r cleifion wedi cael eu hasesu o ran eu risg o ddatblygu briwiau pwyso. Roedd cofnod pob claf yn cynnwys tystiolaeth o asesiad croen priodol ac roedd tystiolaeth bod safle cleifion yn cael ei newid yn aml yn ystod y dydd a'r nos lle roedd hynny'n briodol.

Roedd polisi ar waith ar gyfer rheoli ac atal briwiau pwyso a gwelsom dystiolaeth bod mannau pwyso yn cael eu hasesu, eu hailasesu a'u monitro yn holl gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym.

Yn nodedig, roedd nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt drwy Datix<sup>9</sup> a oedd yn ymwneud â briwiau pwyso yn isel iawn. Roedd naw achos wedi'u cofnodi yn 2018 ond dim ond tri sydd wedi'u cofnodi hyd yma ers mis Ionawr 2019.

---

<sup>9</sup> System rheoli digwyddiadau wedi'i theilwra yw Datix a all gefnogi practisau i gofnodi a dadansoddi digwyddiadau arwyddocaol.

## Atal cwympiadau

Dangosodd holl gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym fod y cleifion wedi'u hasesu o ran eu risg o gwmpo. Os oes claf yn wynebu risg o gwmpo, roedd cynlluniau gofal cyfredol ar waith, a oedd wedi'u teilwra i'r claf. Ar gyfer un o'r pum cofnod a adolygwyd gennym, roedd ailasesiad o'r risg o gwmpo hefyd wedi'i gwblhau am fod y claf wedi cwmpo.

Gwelsom fod canllawiau cydio wedi'u gosod ger toiledau a chawodydd y cleifion, er mwyn helpu i atal y cleifion rhag cwmpo. At hynny, roedd canllawiau ar y waliau yn y coridor ym mhob rhan o'r ward. Gwelsom fod y canllawiau mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd un ardal wedi'i difrodi ac roedd arwydd wedi'i osod ar y wal yn nodi bod y tîm ystadau wedi'i hysbysu am y mater.

Gwelsom gleifion yn defnyddio fframiau cerdded i symud o amgylch y ward, a roddodd gymorth ychwanegol i unigolion a oedd eisoes yn ansefydlog ar eu traed.

Cawsom grynodeb o'r achosion o gwmpo y rhoddwyd gwybod amdanynt drwy DATIX rhwng mis Ionawr a mis Mehefin yn 2018 a 2019. Dangosodd y data fod y mwyafrif helaeth o'r achosion ar y ward yn ymwneud â damweiniau neu gwympiadau cleifion. Yn ystod y cyfnod o chwe mis yn 2018, roedd 68 o ddigwyddiadau, a gynyddodd i 81 o ddigwyddiadau yn 2019. Y nifer fwyaf o ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt mewn mis oedd 21 o achosion o gwmpo ym mis Mawrth 2019. Dywedwyd wrthym fod hyn i'w briodoli, o bosibl, i'r ffaith bod yr un claf wedi cwmpo sawl gwaith. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth o hyn.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth o unrhyw baneli craffu ar gwympiadau nac unrhyw hyfforddiant staff gorfodol ar gwympiadau, sy'n faes risg uchel o gofio natur y cleifion ar y ward. Felly, efallai y bydd y ward am ystyried cynnal ymarfer meincnodi, gyda byrddau ieched eraill, mewn perthynas ag atal cwmpo, hyfforddiant staff a phaneli craffu ar gwympiadau, neu ddatblygu pecyn hyfforddiant lleol ar gwympiadau.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd ieched sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'r staff ym maes atal cwmpo yn cael eu diweddarau a'u hasesu, sy'n cynnwys darparu unrhyw hyfforddiant perthnasol.

## Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod y ward yn lân, ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ystafelloedd storio yn anniben gyda chyfarpar mawr ac eitemau eraill a oedd yn golygu y byddai'n anodd glanhau'r llawr. Fel y nodwyd yn flaenorol, gwelsom risg bosibl o heintio a oedd yn gysylltiedig â draen wedi'i flocio yn un o ystafelloedd ymolchi'r cleifion.

Yn ystod ein taith o amgylch y ward gwelsom fod sawl hen hances bapur wedi'i gadael ar y llawr yn yr ystafell storio, a oedd yn cynnwys cyfarpar codi a chario megis teclynnau codi ar gyfer y cleifion. Roedd y cyfarpar yn lân iawn. Fodd bynnag, roedd yr hen hancesi papur yn peri risg y gallai haint ledu i gleifion neu aelodau o'r staff. Symudodd y staff yr hancesi papur o'r llawr ar unwaith.

Roedd y cyfarpar ar y ward i'w weld yn lân ac roedd labeli 'I am clean' gwyrdd wedi'u gosod ar y rhan fwyaf ohono. Fodd bynnag, nid oedd labeli 'glân' gwyrdd wedi'u gosod ar y teclynnau codi yn yr ystafell storio. Dywedodd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad oeddent bob amser yn glanhau'r teclynnau codi rhwng cleifion.

Trafodwyd y trefniadau cadw tŷ ar y ward a dywedwyd wrthym fod amserlen lanhau benodol ar waith ar gyfer y cyfnod rhwng 7:00AM a 3:00PM a oedd yn cynnwys biniau, ystafelloedd ymolchi a thoiledau. Roedd rhaglen dwy wythnos dreigl ar waith ar gyfer glanhau fframiau gwelyau a thynnu llwch oddi ar arwynebau uchel. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau glanhau yn cael eu cynnal a bod rhai problemau bach wedi'u nodi a oedd yn cynnwys tynnu llwch oddi ar arwynebau uchel. Gwnaethom gwblhau arolygiad ar hap o'r canopïau golau lefel uchel uwchben lleoedd gwely a gwelsom fod cryn dipyn o lwch ar arwynebau uchaf y canopïau golau uwchben y gwelyau. Trafodwyd hyn â'r staff glanhau a ddywedodd wrthym nad ydynt yn gallu glanhau'r mannau hyn tra bod claf yn y gwely oddi tanynt ac na allant symud y gwelyau ar eu pennau eu hunain.

Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwelsom fod llawr yr ystafell ymolchi yn ystafell y perthnasau yn llychlyd iawn ac nad oedd wedi cael ei lanhau'n ddiweddar, yn ôl pob golwg. Hefyd, roedd y toiled yn yr ystafell gyfagos wedi'i flocio gan bapur toiled. Gwnaethom ddweud wrth reolwr y ward a awgrymodd y gallai'r ystafell fod wedi cael ei hepgor o'r rota glanhau. Pan wnaethom edrych ar yr ystafell ar ail ddiwrnod yr arolygiad, roedd y llawr wedi cael ei lanhau ond roedd y toiled wedi'i flocio o hyd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd llenni preifatrwydd tafladwy wedi'u gosod ar bob gwely er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion. Dylid newid y rhain o leiaf unwaith bob chwe mis, neu'n gynt os bydd angen. Fodd bynnag, gwelsom nad

oedd unrhyw wybodaeth ar rai llenni i ddangos y dyddiad y cawsant eu newid ddiwethaf, ac nad oedd rhai wedi cael eu newid ers dros flwyddyn.

Mae hylendid dwylo effeithiol yn hanfodol er mwyn helpu i atal croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael ym mhob rhan o'r wardiau, yn ogystal â gel saniteiddio ar gyfer y dwylo. Er mwyn cynnal prosesau atal a rheoli heintiau da, roedd staff ar y ddwy ward yn cydymffurfio â'r polisi Noeth o dan y Penelin<sup>10</sup>. Roedd iwniform y staff yn hwyluso hyn.

Roedd Cyfarpar Diogelu Personol, fel ffedogau a menig tafladwy, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol i atal a rheoli heintiau'n effeithiol. Hefyd, roedd cyfleusterau priodol ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel.

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom fod yr adnodd<sup>11</sup> sgrinio ar gyfer sepsis<sup>12</sup> wedi'i ddefnyddio ar gyfer un claf roedd ei angen arno. Mae hyn yn helpu'r staff i nodi cleifion a allai fod yn datblygu sepsis yn brydlon, er mwyn sicrhau y gellir cynnal adolygiad meddygol a'u trin yn brydlon. Mae trin sepsis yn brydlon yn cynyddu siawns y claf o wella a goroesi sepsis.

Gwelsom fod cydymffurfiaeth dda o ran staff yn cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu rôl o ran atal a rheoli heintiau a'r rhagofalon a oedd yn cael eu cymryd i ynysu cleifion. Gallai pob aelod o'r staff ddisgrifio pum cam hylendid dwylo a gwelsom y staff yn defnyddio gel saniteiddio ar gyfer y dwylo neu'n golchi eu dwylo rhwng cyswllt â chleifion a gweithdrefnau.

---

<sup>10</sup> Mae'r polisi Noeth o dan y Penelin yn gwahardd pob aelod o'r staff, gan gynnwys timau clinigol a gweinyddol, rhag gwisgo unrhyw ddillad na gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), o dan y penelin ar y ward, ac yn enwedig pan fyddant yn dod i gysylltiad â chleifion.

<sup>11</sup> Mae sepsis yn adwaith sy'n peryglu bywyd i haint. Mae'n digwydd pan fydd eich system imiwnedd yn gorymateb i haint ac yn dechrau niweidio meinweoedd ac organau eich corff eich hun

<sup>12</sup> [Adnodd Sgrinio Sepsis](#)

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y staff ar y ward yn rhoi unrhyw hancesi papur wedi'u defnyddio mewn biniau gwastraff ar unwaith
- Sicrhau bod llwch yn cael ei dynnu oddi ar arwynebau uchel yn rheolaidd, gan gynnwys canopïau golau uwchben gwelyau'r cleifion
- Sicrhau bod cyfarpar a rennir, megis teclynnau codi, bob amser yn cael ei lanhau rhwng pob claf
- Sicrhau bod ystafell ac ystafell ymolchi'r perthnasau yn cael eu glanhau'n rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio i eraill ac i gleifion
- Sicrhau bod yr holl lenni preifatrwydd tafladwy yn cael eu dogfennu i ddangos y dyddiad y cawsant eu newid ddiwethaf, a'u bod yn cael eu newid o leiaf unwaith bob chwe mis, neu'n gynt os bydd angen gwneud hynny am resymau clinigol.

## Maeth a hydradu

Dangosodd holl gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym fod y staff wedi cwblhau asesiad risg maeth ar gyfer cleifion o fewn 24 awr iddynt gael eu derbyn i'r ward. Roedd gan bob claf gynllun gofal y geg ac roedd wedi cael ei atgyfeirio at ddeietegydd neu therapi lleferydd ac iaith os oedd angen. Roedd gan ddau glaf statws dim drwy'r geg ac roeddent wedi cael eu hasesu'n briodol.

Gwelsom fod siartiau bwyd a hylif ar waith ar gyfer cofnodion pedwar o'r pum claf a adolygwyd gennym. Fodd bynnag, ni allem ddod o hyd i siart a ddylai fod wedi bod ar waith ar gyfer un claf. Roedd y siartiau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod cymeriant drwy'r geg yn cael ei fonitro er mwyn cynnal lefelau hydradu a maeth digonol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno y byddai'r staff yn eu helpu i fwyta ac yfed pe bai angen, a'u bod yn cael digon o amser i fwyta eu bwyd wrth eu pwysau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod dŵr bob amser ar gael, er bod un yn anghytuno â hynny.

Gwnaethom arsylwi ar adegau prydau bwyd y cleifion a gwelsom eu bod wedi cael eu cynllunio a'u cydgysylltu'n dda rhwng y staff arlwyo a'r staff gofal.

Gwelsom fod hambyrddau coch yn cael eu defnyddio i nodi'r cleifion hynny roedd angen cymorth arnynt i fwyta. Gwelsom y staff yn rhoi cymorth i gleifion amser cinio drwy roi'r cleifion yn y safle cywir a'u helpu i fwyta ac yfed.

Roedd cynlluniau prydau bwyd unigol ar gyfer pob claf yn cael eu diweddarau deirgwaith y dydd ac yn cael eu rhoi i staff arlwygo'r ward yn ystod pob pryd o fwyd. Roedd y cynlluniau yn ystyried gofynion o ran deiet ac alergenau. Dywedwyd wrthym fod system bwydlen ar lechen electronig yn cael ei threialu, gan obeithio y byddai'n cael ei chyflwyno'n fuan ar y ward. Byddai hyn yn galluogi'r cleifion i weld lluniau o'u bwyd er mwyn deall yr opsiynau a oedd ar gael yn well.

Gwelsom fod dewis da o fwyd ar y fwydlen ac y gallai'r cleifion ddewis yr hyn roeddent am ei fwyta yn seiliedig ar ffactorau risg unigol er enghraifft, unigolion sy'n ei chael hi'n anodd llyncu. Roedd y bwyd yn edrych yn flasus, roedd yn boeth ac roedd yn aroglu'n dda. Gwelsom fod jygiau dŵr a chwpanau wedi'u rhoi ar fyrddau wrth ymylon y gwely, ac o fewn cyrraedd hawdd i'r cleifion. Hefyd, gwelsom y staff yn helpu'r cleifion i yfed ar adegau eraill yn ystod yr arolygiad.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod poteli hylifau mewnwythiennol a bagiau hylif un litr yn cael eu storio ar silff yn yr ystafell driniaeth a'u bod yng ngolau uniongyrchol yr haul. Gwelsom fod cyddwysiad ar ben rhai o'r poteli. Roed y tymheredd storio uchaf ar y label yn dangos 25 gradd, ac am fod golau uniongyrchol yr haul yn arbennig o amlwg ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, roedd yn bosibl bod yr hylifau yn uwch na'r tymereddau hyn. Gwnaethom argymhell y dylai rheolwr y ward gysylltu â'r fferyllfa i weld a ddylai'r poteli hylifau ac unrhyw eitemau eraill sydd yng ngolau uniongyrchol yr haul gael eu symud a'u dinistrio. Gwnaethom hefyd argymhell y dylid cadw bleinds y ffenestri ar gau er mwyn sicrhau nad yw'r hylifau yng ngolau uniongyrchol yr haul.

Rhoddwyd copi o bolisi rheoli meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd i ni. Roedd y polisi hefyd ar gael ar y weithfan glinigol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau tymheredd rheolaidd ar oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Roedd hyn yn sicrhau bod meddyginiaeth mewn oergelloedd yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd.

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu storio'n briodol a bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion mewn ffordd gymwys. Gwelsom fod cofnod clir yn cael ei gwblhau i ddangos pryd y rhoddodd y staff feddyginiaeth i'r cleifion, pryd y rhoddodd y cleifion feddyginiaeth iddynt hwy eu hunain, a bod unrhyw resymau dros beidio â rhoi meddyginiaeth yn cael eu cofnodi. Gwelsom fod y stoc o gyffuriau a reolir yn cael ei gwirio bob dydd.

Roedd meddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael eu cadw mewn cypyrddau dan glo mewn ystafell driniaeth dan glo. Hefyd, roedd meddyginiaeth yn cael ei storio mewn cabinetau dan glo wrth ymyl gwelyau'r cleifion. Gwelsom fod y cleifion yn gwisgo bandiau adnabod a bod y rhain yn cael eu cymharu â label adnabod y siart gyffuriau wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion er mwyn lleihau'r risg o gamgymeriadau wrth roi meddyginiaeth.

Gwnaethom arsylwi ar y rownd feddyginiaethau a gweld nad oedd y troli cyffuriau yn cael ei adael heb ei oruchwyllo ar unrhyw adeg. Dywedwyd wrthym fod y ward wedi treialu cynllun y tabard coch yn flaenorol lle mae nyrsys yn gwisgo arwyddion 'do not disturb' pan fyddant yn rhoi cyffuriau i gleifion. Fodd bynnag, rhoddwyd y gorau i'r cynllun hwn am fod y staff wedi dweud ei fod yn tarfu'n fwy ar y rownd feddyginiaethau a'i bod yn gweithio'n well ar hyn o bryd heb gynllun y tabard coch.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisi a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg neu'n agored i niwed. Gwelsom fod y prif ddrysau i fynd i mewn ac allan o'r ward dan glo a bod angen rhoi cod er mwyn datgloi'r drws.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur, pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo'n hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt.

Dywedwyd wrthym fod y gilfan â phedwar gwely ger gweithfan y staff yn cael ei defnyddio ar gyfer cleifion yr oedd angen eu harsylwi'n fwy. Er nad oedd yr un claf o dan oruchwyliaeth un i un barhaol ar adeg yr arolygiad, dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei drefnu yn ôl yr angen, sy'n cynnwys darparu nyrsys iechyd meddwl pan fo heriau ymddygiadol penodol.

Gwelsom mai un nyrs oedd arweinydd proses Asesiadau Galluedd Meddyliol (MCA) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS)<sup>13</sup> ar y ward.

---

<sup>13</sup>Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau y gofelig am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid

Gwelsom fod y statws DOLS/MCA yn cael ei arddangos yn erbyn gwybodaeth am gleifion unigol a'i fod yn rhan o'r broses drosglwyddo rhwng sifftiau.

Roedd nifer mawr o achosion o DOLS ar waith ar y ward, er mwyn sicrhau bod y staff yn gofalu am y cleifion mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid. Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion pum claf, roedd yn anodd dod o hyd i wahanol ddarnau o ddogfennaeth DOLS, am nad oedd yr holl ddogfennaeth yn cael ei chadw mewn un lle yng nghofnodion y cleifion. Dywedwyd wrthym fod gwaith wedi dechrau ar ddatblygu cofnodlyfr canolog i fonitro ceisiadau a dyddiadau ar gyfer DOLS. Dywedwyd wrthym hefyd mai'r nod yw creu adran ddynodedig yng nghofnod pob claf ar gyfer storio'r holl ddogfennau sy'n ymwneud ag Asesiadau Galluedd Meddyliol a DOLS.

Roedd hyfforddiant staff ar DOLS wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd i staff a oedd wedi cael ei chyflwyno, yr ymdrinnir â hi yn fanylach yn yr adran Ansawdd a Rheoli yn yr adroddiad. Dywedwyd wrthym fod rhai nyrsys wedi cael yr hyfforddiant. Fodd bynnag, dim ond nifer bach o'r staff a oedd wedi cael yr hyfforddiant am fod llawer o'r nyrsys yn rhy brysur.

O edrych ar y cofnodion hyfforddiant ar gyfer nyrsys cofrestredig ar y ward, gwelsom fod nifer o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefelau un<sup>14</sup> a dau<sup>15</sup> ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dangosodd y cofnodion fod y rhan fwyaf o'r staff nyrsio wedi cwblhau hyfforddiant lefel un. Fodd bynnag, llai na hanner a oedd wedi cwblhau hyfforddiant lefel dau. Am fod y cleifion strôc ar y ward yn agored i niwed, byddem yn disgwyl i staff clinigol cofrestredig fod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel dau.

---

<sup>14</sup>Mae hyfforddiant diogelu lefel un yn gwrs rhagarweiniol i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth a dyma'r gofyniad sylfaenol ar gyfer staff sy'n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed.

<sup>15</sup>Mae hyfforddiant diogelu lefel dau yn sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth fwy manwl o'r materion sy'n ymwneud â diogelu er mwyn iddynt allu gweithredu ar bryderon.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod dogfennaeth DOLS yn drefnus ac yn cael ei chadw mewn adran ddynodedig yng nghofnodion y cleifion
- Bod staff clinigol cofrestredig yn cwblhau hyfforddiant lefel dau

## Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod gan y ward y cyfarpar priodol er mwyn helpu i adsefydlu cleifion a oedd wedi cael strôc, a oedd yn cynnwys fframiau cerdded, comodau, cyfarpar monitro a theclynnau codi. Roedd gan rai rhannau o'r ward declynnau codi yn sownd wrth y nenfwd. Fodd bynnag, oherwydd problemau strwythurol yn yr adeilad nid oedd gan rai rhannau declynnau codi o'r fath.

Yn ystod ein harolygiad gwelsom nad oedd y cyfarpar dadebru bob amser wedi cael ei wirio bob dydd a/neu bob mis, yn unol â'r polisi lleol. Roedd y ffaith nad oedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn peri risg i ddiogelwch y cleifion, gan nad oedd y trolï dadebru o bosibl yn cynnwys digon o offer/meddyginiaeth, neu nad oedd yr offer/meddyginiaeth o bosibl yn gyfredol nac yn barod i'w defnyddio, pe bai argyfwng yn codi gyda chlaf.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â gwiriadau ar y trolïau dadebru o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y cleifion fel petaent yn cael gofal da ac yn gyfforddus ar y ward. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno mai gofalu am y cleifion oedd blaenoriaeth bennaf y bwrdd iechyd. Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur bob amser neu fel arfer yn fodlon ar ansawdd y gofal y gallant ei roi i'r cleifion. Fodd bynnag, dim ond hanner a ddywedodd y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe byddai angen triniaeth ar frind neu berthynas.

Roedd y dull amlddisgyblaethol o adsefydlu cleifion yn amlwg iawn ar y ward, lle roedd timau yn cydweithio i gefnogi'r cleifion. Un enghraifft o hyn yw lle mae ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol yn nodi cleifion allweddol bob bore er mwyn rhoi gofal personol iddynt mewn ffordd therapiwtig, a allai gynnwys asesiad ymolchi a gwisgo, a helpu'r claf i symud er mwyn iddo gyrraedd y toiled ar ei ben ei hun.

Cawsom dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal bob mis ar y ward. Roedd y cofnodlyfr dystiolaeth yn cofnodi dyddiad yr archwiliad, y canlyniad ac unrhyw gamau roedd angen eu cymryd i wella safonau. Gwelsom, ym mis Awst 2019, fod archwiliadau wedi'u cwblhau ar gyfer dogfennaeth, heintiau yn y llwybr wrinol sy'n gysylltiedig â chathetr, cwympiadau, hylendid dwylo a chydymffurfiaeth â'r polisi Noeth o dan y Penelin, maeth, briwiau pwyso a bandiau adnabod. Roedd y canlyniadau yn amrywio o 82% ar gyfer dogfennaeth i 100% ar gyfer Hylendid Dwylo a Noeth o dan y Penelin. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd yr hysbysfwrdd a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr archwiliadau clinigol, yn gyfredol mwyach.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau arloesol newydd a oedd yn cael eu datblygu i wella canlyniadau'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod y tîm wedi'i gydnabod ar gyfer gwobrau a'i fod yn datblygu prosiectau ymchwil hefyd. Fodd bynnag, ni roddwyd unrhyw fanylion penodol i ni.

Dywedwyd wrthym fod tri chyfarfod o'r tîm amlldisgyblaethol yn cael eu cynnal bob wythnos ar gyfer cleifion unigol, a oedd yn cynrychioli un ar gyfer pob un o'r meddygon ymgynghorol ar y ward. Roedd nyrsys a chynrychiolwyr o bob un o'r therapïau yn bresennol yn y cyfarfodydd. Diben y cyfarfodydd oedd llunio cynllun rheoli clir ar gyfer y claf a rhoi diweddariad ar gynnydd, sy'n cynnwys pob maes yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nodau cleifion a'r camau nesaf a allai gynnwys parhau â'r rhaglen sefydlu neu gynllunio ar gyfer rhyddhau'r claf.

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod dull gweithredu diwygiedig yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod y cyfarfodydd yn fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ffurflen newydd i gofnodi'r holl wybodaeth am y claf, o bob maes therapi, mewn un lle. Bydd y ffurflen newydd hefyd yn cynnwys hanes cymdeithasol a theuluol er mwyn sicrhau bod y cynllun gofal yn canolbwyntio'n fwy ar y claf er enghraifft, drwy gofnodi hoff a chas bethau'r claf. Nod y dull newydd hwn o weithredu yw sicrhau bod y tîm yn cydweithio mewn ffordd systemig i gyfuno nodau a chanlyniadau'r cleifion. Nododd y staff y bydd y dull hwn o weithredu yn cynnwys datblygu mesurau canlyniadau, er mwyn dangos cyflwr y claf pan fydd yn ymuno â'r ward, beth yw ei nod o ran adsefydlu a'r ffordd y bydd y tîm yn ei helpu i gyflawni'r nod hwnnw.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom sawl enghraifft a ddangosodd ymagwedd wael at ddiogelwch gwybodaeth cleifion adnabyddadwy a chofnodion cleifion. Roedd hon yn risg sylweddol i'r bwrdd iechyd oherwydd y gofynion cyfreithiol o ran y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data (2018).

Gwelsom, y tu allan i bob un o'r ystafelloedd i gleifion unigol, fod nodiadau'r cleifion wedi'u rhoi mewn daliwr ar y wal. Roedd nodiadau'r cleifion yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth sensitif, er enghraifft siartiau cyffuriau a chrynodebau nyrsio o ofal. Roedd y nodiadau hefyd yn cynnwys gwybodaeth bersonol adnabyddadwy, a oedd yn cynnwys sticer adnabod a oedd yn dangos enw, dyddiad geni a chyfeiriad cartref y claf. Roedd hyn yn peri risg sylweddol y

gallai data personol gael eu colli am y gallai'r nodiadau gael eu cymryd yn hawdd o'r ffolder heb i neb sylwi ar hynny. Gwnaethom edrych ar yr ardaloedd â phedwar gwely a gweld bod nodiadau'r cleifion yn cael eu storio wrth droed pob gwely gyda'r claf ac, felly, roeddent yn fwy diogel.

Gwelsom hefyd fod cofnodion y cleifion yn cael eu storio mewn troli dynodedig y gellir ei gloi a oedd yn y coridor. Ar sawl achlysur gwelsom fod y troli heb ei gloi a'i fod wedi'i adael ar agor a heb ei oruchwyllo. Unwaith eto, roedd hyn yn peri risg sylweddol o fynediad amhriodol neu anawdurdodedig i nodiadau cleifion.

Gwelsom weithfan a desg yn y coridor a oedd yn cynnwys nifer o eitemau a allai arwain at ddatgelu data heb awdurdod. Roedd sticer adnabod claf a oedd yn dangos enw, dyddiad geni a chyfeiriad cartref yn sownd wrth ochr y monitor ac roedd taflen rhyddhau claf a oedd yn cynnwys sticer adnabod claf wedi'i gadael ar y ddesg. Gwelsom hefyd gopi o nodiadau cleifion a oedd wedi'i adael heb ei oruchwyllo yn y weithfan.

O edrych ar y cofnodion hyfforddiant ar gyfer nyrsys cofrestredig ar y ward, gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu gwybodaeth. Ni wnaethom edrych ar y cofnodion hyfforddiant ar gyfer grwpiau proffesiynol eraill. Fodd bynnag, o ystyried ein canfyddiadau, dylai'r bwrdd iechyd ystyried trefnu hyfforddiant gloywi ar gyfer pob aelod o'r staff.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth a allai adnabod cleifion, megis cofnodion gofal, yn cael eu cadw'n ddiogel pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

### Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod y gwaith cadw cofnodion o safon dda yn y sampl o gofnodion gofal pum claf a adolygwyd gennym. Roedd tystiolaeth dda o fewnbwn amlddisgyblaethol gan bob disgyblaeth i gofnodion y cleifion. Gwelsom fewnbwn cyson i asesiadau, trafodaethau a gweithgarwch cynllunio gofal. Mae ein canfyddiadau cadarnhaol mewn perthynas â rhai agweddau penodol ar y gwaith o gadw cofnodion wedi'u nodi eisoes yn yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod y cofnodion yn glir ac yn hawdd i'w darllen, er mwyn sicrhau parhad gofal rhwng clinigwyr. Roedd pob cofnod wedi cael ei lofnodi a'i ddyddio gyda'r amser cofnodi wedi'i gynnwys. Gwelsom hefyd dystiolaeth o

dros glwyddiad ysgrifenedig yn cael ei gwblhau ar ddiwedd pob sifft nyrsio. Roedd anghenion pob claf yn cael eu hasesu yn brydlon ar adeg ei dderbyn i'r ward ac roedd asesiadau risg perthnasol wedi cael eu cynnal. Roedd asesiad o boen wedi'i gynnal ar gyfer pob claf a gwelsom y defnydd parhaus o sgoriau poen yn cael ei gofnodi. Ar gyfer un o'r pum claf a oedd wrthi'n cael eu rhyddhau o'r ward, gwelsom dystiolaeth bod pecyn rhyddhau priodol ar waith.

Nodwyd gennym y gellid gwella'r ffordd roedd nodiadau yn cael eu trefnu a'u ffeilio. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom enghreifftiau lle roedd y nodiadau yn ffolderi'r cleifion wedi'u cymysgu ac yn anodd eu canfod tra roedd adrannau hŷn o'r nodiadau wedi'u harchifo rywle arall ar y ward. Gwelsom fod gwerthusiad o ofal yn cael ei gofnodi yn y cofnodion wrth ochr y gwely gan y rhan fwyaf o'r staff ond bod staff dros dro yn aml yn cofnodi hyn yn y prif gofnod a allai olygu ei fod yn anodd i'w ddilyn. Hefyd, roedd rhai papurau yn rhydd ac, felly, gallent gael eu colli.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion gofal y cleifion yn drefnus er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd i waith papur yn hawdd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod y staff yn broffesiynol iawn, yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion gan ddefnyddio dull gweithredu amlddisgyblaethol.

Roedd arweinyddiaeth gref ar y ward ac roedd y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr llinell. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r staff o'r farn nad oeddent yn cael adborth ar unrhyw ganggymeriadau a digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt.

Roedd cydymffurfiaeth o ran cwblhau arfarniadau staff o fewn y tîm nyrsio wedi gwella'n sylweddol yn 2019.

Cydnabuwyd yn eang fod gwaith nyrsio ar y ward yn brysur ac yn gorfforol iawn. Roedd llawer o'r staff o'r farn nad oes digon o staff ar gael ac y gall hyn effeithio ar lefel y gofal a ddarperir.

Roedd rhai patrymau gwaith hanesyddol ar waith ar gyfer y staff nyrsio, a oedd yn achosi nifer o broblemau, yn ôl pob golwg. Dylid asesu ac ailwerthuso hyn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth o ran gwasanaethau a gofal cleifion yn gyson rhwng pob tîm ac yn deg i bob aelod o'r staff.

Roedd cydymffurfiaeth o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm nyrsio yn dda, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd rhai aelodau o'r staff yn cydymffurfio ym mhob maes.

Roedd tystiolaeth o arferion negyddol ymhlith rhai aelodau o'r staff nos, a oedd yn effeithio ar urddas a gofal y cleifion, ynghyd â

chydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gorfodol.

## **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd staff a oedd yn gweithio ar y ward i roi sylwadau ar bynciau a oedd yn ymwneud â'u gwaith. Gwnaed hyn yn bennaf drwy holiadur gan AGIC ond gwnaethom hefyd siarad â nifer o staff yn ystod ein harolygiad. Cafwyd cyfanswm o 27 o holiaduron wedi'u cwblhau. Fe'u cyflwynwyd gan staff a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau a disgyblaethau ar y ward. Roedd y staff a gwblhaodd yr holiaduron wedi gweithio ar y ward am gyfnodau amrywiol, o bythefnos i dros 20 mlynedd.

Roedd y ward yn cael ei goruchwyllo gan uwch-nyrs ac roedd arweinyddiaeth glinigol wedi'i datganoli drwy reolwr band saith ar gyfer pob un o'r proffesiynau yn y tîm amlddisgyblaethol. Roedd gan bob rheolwr band saith gyfrifoldeb datganoledig ar gyfer ei faes penodol ac roeddent yn cydweithio i ddarparu gofal adsefydlu i'r cleifion ar y ward. Roedd nyrs band saith yn gyfrifol am reoli'r ward yn gyffredinol, ynghyd â'r staff nyrsio.

Yn ystod ein sgysiau â'r staff yn ystod yr arolygiad, ac o holiaduron staff, clywsom lawer o ganmoliaeth i reolwr nyrsio'r ward, a ymunodd â'r bwrdd iechyd ym mis Tachwedd 2018. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i'r gwelliannau sylweddol a oedd i'w gweld ar y ward, a oedd yn cynnwys arweinyddiaeth a chyfarwyddyd da ar gyfer y staff, y diwylliant cyffredinol ar y ward, gwell cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant staff a chwblhau arfarniadau blynyddol. At hynny, clywsom lawer o ganmoliaeth i'r rheolwyr band saith yn y therapïau.

Dywedodd y staff hynny y cawsom sgwrs â nhw, a'r rhai a gwblhaodd holiadur, wrthym eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr llinell yn eu cefnogi'n dda. Ymhlith y sylwadau o'r holiaduron staff roedd:

*“Mae'r rheolwr llinell bob amser yn gefnogol ac yn broffesiynol ac mae'n gwerthfawrogi ein tîm. Mae'n gadarnhaol ac yn gefnogol. Mae bob amser yn mynd gam ymhellach.”*

*“Rwy'n ffodus bod gen i reolwr llinell sy'n fy nghefnogi ac yn fy annog yn fawr.”*

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad. Dywedodd y rhan fwyaf fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff bod amser neu fel arfer. Dywedodd y mwyafrif fod yr uwch-reolwyr yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig weithiau, a'u bod yn gweithredu ar adborth gan y staff o bryd i'w gilydd.

Disgrifiodd y staff y trefniadau llywodraethu ar y ward, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd tîm unigol ar gyfer pob proffesiwn a chyfarfodydd aml-ddisgyblaethol drwy gyfarfodydd y Grŵp Gwella Strôc (SIG) a'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch (QSE). Dywedwyd wrthym fod yr SIG yn grŵp hirsefydlog a oedd yn ystyried prosiectau a gwelliannau i'r gwasanaeth. Roedd y QSE wedi cael ei sefydlu tua blwyddyn yn ôl er mwyn trafod agweddau penodol ar ofal, er enghraifft cwynion, digwyddiadau a hyfforddiant. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd yr SIG a'r QSE wedi'u cyfuno'n ddiweddar am fod dyblygu rhwng yr hyn a oedd yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod. Cadeirir y grŵp newydd gan yr uwch-nyrs ac mae'n cyfarfod bob mis.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser neu fel arfer yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gofal y cleifion a'u bod o'r farn bod y bwrdd iechyd yn annog gwaith tîm ac yn grymuso gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddweud eu dweud, a bod diwylliant o fod yn agored a dysgu i gefnogi'r staff.

Tynnwyd sylw at y ffaith, cyn i reolwr nyrsio'r ward gael ei benodi, nad oedd y tîm nyrsio yn cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol. Bellach, mae proses ar gyfer cynnal cyfarfodydd bob deufis ar gyfer tîm nyrsio'r ward, ac ar gyfer yr adroddiadau uniongyrchol.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau ac y caiff camau dilynol eu cymryd. Roedd y staff hefyd o'r farn bod unrhyw aelodau o'r staff sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath yn cael eu trin yn deg. Fodd bynnag, dim ond hanner y staff a ddywedodd eu bod yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig (2015).

Yn ystod yr arolygiad, ac yn ein sesiwn adborth olaf, dangosodd yr uwch-aelodau o'r staff a oedd yn bresennol ddiddordeb clir mewn dysgu o'r arolygiad ac ymrwymiad i wneud hynny, er mwyn helpu i wella safonau a gofal ar y ward.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gyson ar waith i roi gwybod i'r staff am newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Gwelsom fod y nifer llawn o staff nyrsio cofrestredig ar y ward, ac eithrio chwe swydd wag i staff llawn amser ar fand pump. Dywedwyd wrthym fod dau aelod newydd o staff wedi'u penodi'n ddiweddar. Roedd y swyddi gwag eraill yn cael eu llenwi gan ddefnyddio staff dros dro, a oedd yn cynnwys nyrsys banc ac asiantaeth. Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o staff asiantaeth yn cael eu trefnu am gyfnod estynedig er mwyn sicrhau parhad gofal i'r cleifion.

Roedd y rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod lefelau staffio digonol ar y ward. Fodd bynnag, nodwyd bod salwch staff ar fyr rybudd yn effeithio ar hyn gan arwain at sifftiau heb eu llenwi, y defnydd o staff dros dro sy'n anghyfarwydd â'r maes a rhai aelodau parhaol o'r staff sydd ond yn gweithio patrymau gwaith sefydlog a chyfyngedig. Dywedwyd wrthym, oherwydd trefniadau hanesyddol, fod rhai aelodau o'r staff ond yn gweithio ar ddiwrnodau neu nosweithiau penodol ac y gall hyn rwystro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau am nad oes unrhyw hyblygrwydd o ran cyflenwi ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd newydd ddechrau ystyried sut i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Codwyd pryderon gennym ynglŷn â sylwadau roeddem wedi'u cael gan gleifion a rhai aelodau o'r staff ynghylch y canfyddiad bod rhai aelodau o'r staff nos, ar adegau, yn anghwrtais, yn swrth ac yn trin y cleifion yn arw. Roedd un claf y gwnaethom siarad ag ef o'r farn nad oedd y staff nos am fod yn y gwaith. Dywedwyd wrthym mai rhan o'r nod o fynd i'r afael â'r broblem bresennol gyda phatrymau gwaith hanesyddol yw y bydd pob aelod o'r staff yn cylchdroi yn y sifftiau dydd a nos, a fydd yn helpu i sicrhau bod safon y gofal a ddarperir yn gyson.

Roedd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad o'r farn nad oes digon o staff ar gael ac y gall hyn effeithio ar lefel y gofal a ddarperir, er enghraifft o ganlyniad i oedi cyn ymateb i glychau galw nyrs. Cydnabuwyd yn eang fod nyrsio yn heriol iawn ar y ward, oherwydd yr holl waith codi a chario sy'n gysylltiedig â'r rôl a'r ffaith bod y ward yn fawr iawn. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith y gall natur amlddisgyblaethol y ward arwain at lwyth gwaith mwy o faint am fod y staff yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a thrafodaethau ychwanegol â phroffesiynau eraill, rhywbeth na fyddai'n digwydd fel arall. Awgrymwyd ei bod yn bosibl bod y cleifion yn teimlo bod prinder staff a chododd un claf y

gwnaethom siarad ag ef bryderon ynghylch prinder staff, yn enwedig ar y penwythnos.

Gall fod yn fuddiol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod un aelod ychwanegol o staff cymwys ar ddyletswydd ar y ward yn ystod y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Diben hyn fyddai cydgysylltu'r sifft, y staff ac anghenion gofal. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i gynllun y ward a gwelededd pob ardal, a'r angen i alluogi cyfathrebu digonol rhwng pob ardal, ynghyd â chymorth a staff cyflenwi digonol a phriodol ar gyfer cyfnodau egwyl y staff.

Roedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y pwysau ar amser nyrsys yn eu hatal rhag mynd i bob cyfarfod amlddisgyblaethol fel y nodwyd uchod, er mwyn trafod anghenion a chynnydd cleifion unigol, a all weithiau olygu bod bwlch rhwng y therapiau a'r nyrsys o ran diweddariadau cyfathrebu.

Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym, pan fo prinder staff ar wardiau eraill yn yr ysbyty, fod staff nyrsio o'r ward yn cael eu symud i gyflenwi mewn mannau eraill. Ystyriwyd bod hon yn broblem fawr am y gallai effeithio ar ofal cleifion am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol, ac arwain at oedi cyn darparu gofal sylfaenol.

Roedd tua hanner y staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod digon o staff weithiau i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, er bod traean wedi nodi nad oedd byth digon o staff.

“Gall gofal, pan fydd y cleifion yn ei gael, fod yn dda, ond mae lefelau staffio gwael oherwydd cymhlethdod yn effeithio ar yr amser sydd ar gael i ddarparu lefel addas o ofal.”

“Byddai'n fuddiol i ofal cleifion pe na châi aelodau o'r staff eu hanfon i wardiau eraill, pan fydd prinder staff ar ein ward, am fod hyn yn effeithio ar y gofal a roddir i gleifion, pan nad oes gennym lefelau staffio digonol ar gyfer ward mor fawr â hon.”

“Nid oes digon o staff ar y ward er mwyn helpu i roi'r gofal sylfaenol i'r cleifion.”

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u lles ac roedd tua hanner yn cytuno bod eu swydd yn dda i'w hiechyd.

“Rwy'n mwynhau fy swydd ac mae'n rhoi boddhad mawr i mi. Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n galed iawn i fodloni gofynion llwyth achosion mawr a gall eich blino'n feddyliol.

“Gall fy swydd fod yn llawn straen ac yn heriol iawn ar adegau, sy'n effeithio ar fy llesiant meddyliol.”

Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol ynghylch staffio yn nhimau'r therapïau. Fodd bynnag, trafododd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw effaith darparu staff cyflenwi ar gyfer y Ward Strôc Acíwt yn Ysbyty Athrofaol Cymru, saith diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn ymwneud â darpariaeth saith diwrnod yn y lleoliad acíwt a lenwir i raddau helaeth drwy ddefnyddio staff sydd wedi'u lleoli'n bennaf ar y ward. Mae hyn yn golygu bod staff yn gweithio ar benwythnosau i gyflenwi, ac yn cymryd amser i ffwrdd yn lle tâl. Gall hyn amharu ar lesiant y staff, am i ni glywed am achosion lle roedd y staff wedi gweithio mwy na saith diwrnod heb ddiwrnod rhydd.

Trafodwyd arfarniadau staff ar gyfer y staff nyrsio a dywedwyd wrthym, ers i brif nyrs bresennol y ward ddechrau yn ei swydd, fod gwelliant sylweddol wedi bod o ran cwblhau arfarniadau staff yn amserol. Rhoddwyd gwybod i ni ar lafar fod y gyfradd arfarnu ar gyfer nyrsys bron yn 80% a, chyn i brif nyrs y ward ymuno, roedd islaw 30%. Trafodwyd y dull gweithredu a fabwysiadwyd er mwyn mynd i'r afael â hyn a dywedwyd wrthym fod llinellau atebolrwydd cliriach bellach o ran pwy oedd yn gyfrifol am gwblhau arfarniadau ar gyfer grwpiau o staff, a bod hyn yn fympwyol i ryw raddau cyn hynny.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff ar y ward a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd bron pawb a gafodd adolygiadau fod eu hanghenion dysgu neu ddatblygu yn cael eu nodi a dywedodd y rhan fwyaf wrthym fod eu rheolwr bob amser yn eu cefnogi i ddiwallu'r anghenion hyn.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o wyth ffeil staff ar gyfer nyrsys a ddewiswyd ar hap o blith nyrsys bandiau dau, pump a chwech. Dangosodd dau o'r cofnodion arfarniadau Arfarnu Perfformiad ac Adolygu Datblygiad (PADR) cyfredol, dangosodd dau gofnod fod PADR wedi'i gwblhau ond roedd hynny wedi digwydd fwy na 12 mis yn ôl ac nid oedd gan bedwar o'r cofnodion unrhyw gofnod mewn ffeil bod PADR wedi'i gwblhau erioed.

Cawsom gopi gwag o weithlyfr amcanion datblygu a chymwyseddau nyrsys, sy'n cael ei gwblhau ar gyfer pob aelod newydd o'r staff nyrsio. Roedd yn cynnwys rhestr o gymwyseddau craidd gofal strôc er enghraifft, achosion strôc, effeithiau cyffredin strôc, atal briwiau pwysu, emosiynau ac adsefydlu. Roedd y staff yn cael eu hasesu o lefel un i bump, a oedd yn ymwneud â lefel sylfaenol o wybodaeth i gymhwysedd llawn.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi ymgymryd â dysgu a datblygu mewn meysydd fel iechyd a diogelwch,

diogelwch tân, rheoli heintiau ac MCA/DOLS yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd tua hanner wedi cael hyfforddiant ar drin pobl â dementia â pharch yn ystod y 12 mis diwethaf. At hynny, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod hyfforddiant bob amser neu fel arfer yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, yn eu helpu i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol ac yn sicrhau eu bod yn darparu profiad gwell i gleifion.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant mewn swydd amlddisgyblaethol wedi'i gyflwyno ym mis Chwefror 2019 er mwyn annog y timau amlddisgyblaethol i gydweithio i lunio a darparu hyfforddiant. Byddai'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu am awr unwaith y mis. Ymhlith rhai o'r pynciau y bwriadwyd ymdrin â nhw yn 2019 roedd DOLS, addasu seicolegol yn dilyn strôc a dysgu myfyriol seiliedig ar astudiaethau achos cleifion. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod hon yn fenter dda. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod y staff nyrsio yn ei chael hi'n anodd mynd i sesiynau hyfforddi oherwydd pwysau gwaith ar eu hamser.

Roedd gan bob aelod o'r staff Gofnod Electronig unigol. Heblaw am roi manylion y staff, mae Cofnod Electronig y Staff yn galluogi'r rheolwyr ac aelodau unigol o'r staff i weld manylion unrhyw hyfforddiant a gwblhawyd neu nas cwblhawyd. Dywedwyd wrthym fod cofnodion hyfforddiant ar gyfer y staff nyrsio yn cael eu gwirio gan brif nyrs y ward a dirprwy brif nyrsys y ward ar gyfer pob unigolyn ar Gofnod Electronig y Staff er mwyn sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn yr amserlenni gofynnol. Efallai y bydd y bwrdd iechyd yn ystyried datblygu adroddiadau misol cryno ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol o Gofnod Electronig y Staff, er mwyn helpu i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar y ward.

Gwnaethom ofyn am gopi o adroddiadau ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant er mwyn nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar gyfer y tîm nyrsio. Gwelsom fod llawer o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn rhai meysydd, a oedd yn cynnwys diogelwch tân, cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ac atal a rheoli heintiau lle roedd y rhan fwyaf o'r nyrsys wedi cwblhau'r hyfforddiant. Fodd bynnag, dangosodd y cofnodion fod nifer y staff a oedd yn mynd i sesiynau hyfforddi yn y meysydd canlynol yn fach iawn neu'n fach: ymwybyddiaeth o ddementia, symud a thrin a thrais ac ymddygiad ymosodol. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y lefelau cwblhau ar gyfer diogelu lefel dau yn isel hefyd.

O gofio natur y cleifion ar y ward, roeddem yn pryderu bod y meysydd lle roedd lefelau cyfranogiad mewn hyfforddiant yn isel yn hanfodol i'r maes gwaith. Er enghraifft, gall fod gan lawer o'r cleifion ar y ward ddementia, a thynnodd yr

aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw sylw at natur gorfforol iawn y swydd, lle mae angen codi a chynorthwyo'r cleifion yn aml.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod patrymau gwaith yn deg i bob aelod o'r staff ac yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth
- Sicrhau bod lefel y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei chynnal gan staff sy'n gweithio'r sifft nos a staff dros dro
- Sicrhau bod digon o staff ar y ward i sicrhau diogelwch y cleifion ac iechyd a llesiant y staff
- Sicrhau bod y staff nyrsio yn cael digon o amser i fynd i sesiynau hyfforddi a chyfarfodydd amlddisgyblaethol
- Sicrhau bod y staff nyrsio yn cwblhau pob agwedd ar hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'w rôl a'u maes gwaith.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchggyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                                                                                                  | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion                                                    | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC                                                                   | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys                                                                                                                                                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Sawl achos lle roedd drysau a chypyrddau storio wedi'u gadael heb eu cloi lle y gallai claf ddod i gysylltiad â deunyddiau glanhau a diheintio. | Gallai claf niweidio ei hun drwy lyncu cynhyrchion glanhau yn cynnwys clorin neu ddod i gysylltiad â nhw. | Gwnaethom godi pryderon gyda phrif nyrs y ward a'r uwch-nyrs ar ddau ddiwrnod yr arolygiad a chawsant eu datrys. | Defnyddiwyd y cloeon gofynnol ar y drysau er mwyn sicrhau na allai unrhyw gleifion fynd i mewn i'r ystafelloedd. Hefyd, cafodd y diheintydd glanhau ei symud o'r cwpwrdd storio am na ellid ei gloi. |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty Athrofaol Llandochau

**Ward/adran:** Y Ganolfan Adsefydlu yn dilyn Strôc

**Dyddiad arolygu:** 17 a 18 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Safon                                   | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Swyddog cyfrifol | Amserlen                                        |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-------------------------------------------------|
| <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod gwiriadau priodol ar gyfarpar a throlïau dadebru yn cael eu cwblhau a'u cofnodi bob dydd a/neu bob mis yn unol â'r polisi lleol. Mae'n rhaid ymestyn hyn hefyd i gynnwys pob ardal arall yn y bwrdd iechyd.</p> | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | <ol style="list-style-type: none"><li>1. Cynhaliwyd adolygiad o'r ddogfennaeth gyfredol a diweddarwyd y fformat presennol.</li><li>2. Mae Prif Nyrs y Ward wedi sicrhau bod hwn yn gyfrifoldeb dirprwyedig i'r nyrs â chyfrifoldeb ar bob sifft er mwyn sicrhau y caiff ei gwblhau.</li><li>3. Mae'r mater bellach wedi'i gynnwys yn y sesiwn friffio ar ddiogelwch i bob aelod o'r staff.</li></ol> | Prif Nyrs y Ward | Cwblhawyd ac ymgorfforwyd mewn arfer 20/09/2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Swyddog cyfrifol                                                    | Amserlen                                                |
|---------------------------------------|-------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------|
|                                       |       | <p>4. Bellach, bydd hapwiriadau yn cael eu cynnal gan y rheolwyr er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau bod dydd.</p> <p>5. Y Nyrs â Chyfrifoldeb ar bob sifft sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwiriadau wedi cael eu cwblhau.</p> <p>6. Caiff pob ward ac ardal glinigol yn y Bwrdd Clinigol Meddygaeth eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r mater hwn</p> <p>7. Bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cyhoeddi hysbysiad diogelwch cleifion mewnol er mwyn atgoffa'r staff ym mhob rhan o'r sefydliad o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r mater hwn</p> | <p>Cyfarwyddwr Nyrsio</p> <p>Tîm diogelwch cleifion/tîm Dadebru</p> | <p>Diwedd mis Medi 2019</p> <p>Diwedd mis Medi 2019</p> |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Enw: Rebecca Aylward, Cyfarwyddwr Nyrsio, y Bwrdd Clinigol Meddygaeth**  
**Carol Evans, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Diogelwch Cleifion ac Ansawdd**

**Dyddiad: 26 Medi 2019**

## **Atodiad C – Cynllun gwella**

**Ysbyty:** Ysbyty Athrofaol Llandochau

**Ward/adran:** Y Ganolfan Adsefydlu yn dilyn Strôc

**Dyddiad arolygu:** 17 a 18 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

